OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2013 Rhif 551 (Cy. 61)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Carmeltown, Glynebwy, Blaenau Gwent) (Cyfyngiad a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013

*Gwnaed* *22 Chwefror 2013*

*Yn dod i rym* *4 Mawrth 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Mawrth 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Carmeltown, Glynebwy, Blaenau Gwent) (Cyfyngiad a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013.

**2.**— Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 19.00 o'r gloch ar 4 Mawrth 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A465 wrth Gylchfan Carmeltown ac i'r dwyrain ohoni ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(1) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### Gwaharddiad a Chyfyngiad

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

### Cymhwyso

**5.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

### Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 22 Chwefror 2013

***R Morgan***
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

### HYD A LLED Y GWAHARDDIAD DROS DRO AR GERBYDAU.

i) Y darn cyfan o’r gilfan ar gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd, 115 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Carmeltown, Glynebwy.

ii) Y darn cyfan o’r gilfan ar gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd, 150 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Carmeltown, Glynebwy.

## ATODLEN 2

### HYD A LLED Y TERFYN CYFLYMDER 40 MYA DROS DRO

i) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan Carmeltown, Glynebwy, i gyfeiriad y dwyrain am 1.5 cilometr

ii) Y darn cyfan o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Carmeltown, Glynebwy.